

## Yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol: Diweddariad

### Gofynnir i'r Cabinet:

**Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol**

**Nodi bod y gwaith i barhau ar sail y weledigaeth a'r egwyddorion ar gyfer cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru, ac ar sail y diffiniad o Lywodraeth Cymru ffeministaidd, fel y'i nodir yn y papur hwn**

**Nodi y caiff y camau nesaf eu cytuno mewn cyfarfodydd dwyochrog, rhwng y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**

### Y materion

1. Ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, sef 8 Mawrth 2018, cyhoeddwyd Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb gan gyn Brif Weinidog Cymru. Un o'r amcanion a nodwyd ar gyfer yr adolygiad oedd ystyried sut i gynnwys rhywedd yn y broses o wneud penderfyniadau, a hynny mewn ffordd flaenllaw, a sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw. Derbyniwyd adroddiadau Cam 1 gan Chwarae Teg a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ym mis Gorffennaf 2018, a chytunodd y Cabinet ar gwmpas Cam 2 (CAB(17-18)66).
2. Prif ffocws Cam 1 oedd casglu tystiolaeth o Gymru, y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill, a chanfod cyfleoedd ar gyfer gwneud gwaith manylach yng Ngham 2.
3. Mae swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru wedi bod yn ymateb i argymhellion Cam 1. Derbyniwyd mwyafrif yr argymhellion, yn llwyr neu'n rhannol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i symud ymlaen â'r rhain. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd dwyochrog rhwng Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip bryd hynny a chyd-aelodau'r Cabinet yn ystod hydref 2018 i drafod yr adolygiad ymhellach. Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig gyda'r diweddaraaf ym mis Tachwedd 2018. Mae nifer fechan o argymhellion y tu hwnt i rymoedd Llywodraeth Cymru. O ran y rhain rydym yn edrych ar bethau y gallwn eu gwneud i ddylanwadu ar y rhain ar lefel y Deyrnas Unedig.
4. O ran yr argymhellion yng Ngham 1 yr oedd angen rhagor o ystyriaeth yn eu cylch, cawsant eu hystyried ymhellach yng Ngham 2. Mae'r papur hwn yn nodi cynnydd o ran 2 o'r argymhellion hynny, sy'n allweddol i gyflawni argymhellion eraill:
  - Argymhelliad 1: rhaid i Gam 2 ddatblygu gweledigaeth ac ieithwedd a rennir ar gyfer cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru; a

- Argymhelliad 2: rhaid i Gam 2 ddiffinio Llywodraeth Cymru 'ffeministaidd', gan gynnwys y weledigaeth a'r egwyddorion ar gyfer llunio polisïau a gwneud penderfyniadau, a rôl llywodraeth o ran newid diwylliant drwy ymgysylltu â'r cyhoedd, drwy addysg, a thrwy ei holl weithgareddau.
5. Mae'r weledigaeth a'r egwyddorion a nodir isod wedi'u datblygu gan Chwarae Teg, gyda chefnogaeth Grŵp Llywio Gweinidogol a Grŵp Cynghori Arbenigol, ac maent yn deillio o waith ymgynghori trylwyr ac eang.
6. Mae'r adolygiad hefyd wedi ystyried rhyngblethedd a'r effaith ychwanegol ar anghydbwysedd rhywiol o fod yn fenyw anabl, neu'n fenyw o leiafrif ethnig. Mae hwn yn faes sy'n aml yn frith o iaith dechnegol. Nod y weledigaeth, y daethpwyd iddi drwy gyfaddawdu, yw bod mor hygyrch â phosib, er mwyn i gymaint o bobl a phosib ei deall a'i gwerthfawrogi.

#### Y weledigaeth a'r egwyddorion

7. Y weledigaeth :

**Mae Cymru sy'n gyfartal o ran rhyw yn golygu rhannu pŵer, adnoddau a dylanwad yn gyfartal rhwng pob menyw, dyn a phobl anneuaidd. Dyma weledigaeth lle mae'r llywodraeth yn anelu at greu amodau i sicrhau cydraddoldeb i bawb o ran deilliannau.**

#### *Rydym am weld Cymru lle...*

- *mae'n bosibl i bob menyw gael annibyniaeth economaidd a bod gwerth i weithio am dâl ac yn ddi-dâl*
- *mae amrywiaeth o fenywod yn cael eu cynrychioli'n deg mewn swyddi dylanwadol gan gael eu grymuso i chwarae rôl ystyrlon mewn cymdeithas*
- *mae menywod yn rhydd rhag camwahaniaethu ac yn rhydd i fyw eu bywydau fel y mynnant.*
- *mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dod i ben*
- *mae strwythurau pŵer sy'n rhoi menywod o dan anfantais yn cael eu herio*

- *mae menywod, dynion a phobl anneuaidd yn mwynhau hawliau ac amddiffyniadau cyfartal a chydaddoldeb o ran deilliannau.*

8. Dyma'r egwyddorion y cytunwyd arnynt ar gyfer Llywodraeth Cymru ffeministaidd:

***Mae Llywodraeth Cymru ffeministaidd:***

- *wedi ymrwmo i gydraddoldeb o ran deilliannau i fenywod, dynion a phobl anneuaidd ac mae'n gweithio i ysgogi newid diwylliannol a strwythurol*
  - *yn rhagweithiol o ran hyrwyddo a hybu cydraddoldeb a chael gwared ar y rhwystrau sy'n atal menywod rhag cymryd rhan weithredol yn yr economi, a bywyd cyhoeddus a chymdeithasol*
  - *yn rhoi safbwynt rhywedd wrth galon y broses o wneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau a'r gyllideb*
  - *yn seiliedig ar feddylfryd rhyngblethol<sup>1</sup> tuag at ei gwaith; mae'n sicrhau cynrychiolaeth eang, cyfranogiad gan amrywiaeth o bobl ac mae'n gwrandao ar farn amrywiaeth o bobl*
  - *yn ffocysu ar bobl ac yn gydweithredol, gan sicrhau bod pob cymuned yn ymwneud â'i gwaith mewn ffordd ystyrlon*
  - *yn agored, yn dryloyw, ac yn atebol; ac mae'n croesawu pobl i graffu ar ei gwaith o safbwynt rhywedd;*
  - *yn gwneud defnydd o ddulliau datblygu a dadansoddi polisïau i wneud cydraddoldeb rhywiol yn rhan o'i holl waith, ac mae'n monitro cynnydd tuag at gydraddoldeb, gan ddefnyddio sail dystiolaeth;*
  - *yn arwain drwy esiampl, ac yn cefnogi cyrff cyhoeddus i weithredu i gyflawni cydraddoldeb.*
9. Nid yw'r disgrifiadau hyn yn disodli'r fframwaith cyfreithiol cyfredol, gan gynnwys darpariaethau mewn perthynas â'r nodwedd a warchodir, sef rhyw, fel y'i nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ond dylai weithredu fel disgrifiad ymarferol a all fod yn sail i waith datblygu polisïau a rhaglenni ac i gefnogi nodau ac amcanion yr adolygiad.
10. Yn seiliedig ar y weledigaeth a'r egwyddorion a'r cyfarfodydd dwyochrog arfaethedig rhyngof i ac aelodau'r Cabinet, caiff map i'n harwain at gydraddoldeb rhywiol ei gynhyrchu erbyn diwedd Cam 2 o'r adolygiad (Gorffennaf 2019). Bydd hyn yn nodi camau ymarferol o ran sut y gall Llywodraeth Cymru fynd ati i gyflawni ei hamcan o fod yn llywodraeth ffeministaidd a chaiff ei gyflwyno gerbron y Cabinet i

<sup>1</sup> *Dealltwriaeth o'r ffordd y gall nodweddion, fel rhywedd, hil neu ddosbarth, ddylanwadu ar ei gilydd, a chreu profiadau ac anfanteision unigryw sydd yn aml yn rhai amryfal.*

gael cytuno arno'n derfynol cyn ei gyhoeddi. Yn wreiddiol, yr amserlen oedd y byddai'r adolygiad yn gallu dylanwadu ar gyllideb olaf y cynulliad hwn.

### Camau nesaf

11. Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn fodel rôl a chanolbwyntio ar yr hyn sydd angen iddi ei wneud i wella'u hun a gwella pethau'n gyffredinol. Golyga hyn ddylunio polisiâu gyda'r nod clir o hyrwyddo cydraddoldeb. Cynigïaf gynnal rownd arall o gyfarfodydd dwyochrog gyda chydweithwyr yn y Cabinet yn ystod y tymor hwn. Yn y cyfarfodydd hyn, trafodwn sut i arddangos ymroddiad cynnar i'r weledigaeth a'r egwyddorion, a gofynnir i Weinidogion bennu meysydd polisi braenaru o fewn eu portffolios lle gellid gweithredu'n gynnar. Hefyd, efallai y bydd yna feysydd y byddai'n ddefnyddiol i'r Gweinidogion eu hystyried cyn yr Adolygiad o Wariant. Yn ychwanegol at feysydd polisi braenaru, dylai Gweinidogion ystyried a oes unrhyw ysgogiadau cyfredol y gellid eu defnyddio; er enghraifft, drwy gaffael, yn enwedig yn ystod ail gam yr adolygiad cyfredol, drwy lythrau cylch gwaith i gyrff hyd braich, neu drwy gryfhau'r Contract Economaidd.
12. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd yn trefnu bod dirprwyaeth o arbenigwyr o wledydd nordig i ymweld â Chymru yn nes ymlaen y mis hwn i drafod y mathau o newidiadau y gellid eu hystyried a hefyd gysyniadau megis prif-ffrydio rhywedd a chyllidebu ar gyfer rhywedd. Bydd yr ymweliad hwn yn sail bellach i'r camau ymarferol y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i gyflawni a gwireddu'r weledigaeth a'r egwyddorion uchod.

### Cyngor Cyfreithiol

13. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol wedi ystyried y weledigaeth a'r egwyddorion arfaethedig. Nodant fod ffocws cryfach ar gydraddoldeb rhywiol yn creu'r potensial am ddargyfeirio ystyriaethau polisi ac adnoddau o ran grwpiau sy'n rhannu nodweddion eraill a warchodir fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Cynghorant fod y Ddeddf honno'n darparu ar gyfer gweithredu cadarnhaol o ran ffafrio grwpiau penodol o dan adran 158, gan gynnwys lle bo "*persons who share a protected characteristic suffer a disadvantage connected to the characteristic*" a nodant fod angen sicrhau bod unrhyw weithredu o'r fath yn gymesur. Bydd hefyd angen i unrhyw weithredu o'r fath gael ei gyfiawnhau, o ystyried y potensial i'r gweithredu dan sylw gael ei herio.
14. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol hefyd yn nodi bod nifer o'r egwyddorion o ddyletswyddau statudol cyfredol sy'n dod o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (cyfle cyfartal) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae rhai materion penodol werth eu hystyried. Mae'r egwyddorion yn adlewyrchu dyletswyddau penodol o fewn cyd-destun penodol, ond nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu pob dyletswydd berthnasol. Er enghraifft, mae'r

pumed pwynt bwled yn seiliedig ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy (5 ffordd o weithio) o 'gyfranogiad' o dan adran 5(2)(d) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er nad yw'r egwyddorion cydraddoldeb yn seiliedig ar yr holl elfennau eraill o'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Serch hynny, bydd y dyletswyddau eraill hynny'n parhau'n berthnasol i Lywodraeth Cymru.

15. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol hefyd yn nodi bod y drydedd egwyddor (sef "*rhoi safbwynt rhywedd wrth galon y broses o wneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau a'r gyllideb*") yn eang iawn ac y gellid ei ddehongli mewn gwahanol ffyrdd o ran i ba raddau y dylai'r egwyddor honno fod yn gymwys i'r broses o wneud penderfyniadau (ee. o benderfyniadau strategol i benderfyniadau mwy cyffredinol lle nad oes llawer o ryddid a disgresiwn). Mae Gwasanaethau Cyfreithiol yn nodi y gallai datgan yr egwyddor honno'n gyhoeddus greu ffordd o herio penderfyniadau drwy adolygiad barnwrol – ar y sail bod yr egwyddor yn creu disgwyliad dilys y byddai safbwynt rhywedd yn gyffredinol ymhlyg ym mhrosesu penderfynu Llywodraeth Cymru.

#### **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

16. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn aelod o'r Grŵp Llywio i sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r gweithrediadau a nodir yn y papur hwn yn cyfrannu at yr holl amcanion llesiant, yn arbennig at yr amcan o Gymru fwy cydradd. Fodd bynnag, mae'r hyn fydd yn deillio o'r adolygiad yn debygol o effeithio ar amcanion eraill hefyd, er enghraifft 'Cymru lewyrchus', drwy sicrhau cydraddoldeb rhywiol. Mae hefyd yn gysylltiedig â Gwaith Teg. Mae Chwarae Teg yn defnyddio'r 5 ffordd o weithio fel sail i'w hymagwedd tuag at Gam 2.

#### **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

17. Mae'r gweithrediadau'n cyfrannu'n uniongyrchol at wireddu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Erthygl 27 (hawl i safon byw digonol), Erthyglau 28 a 29 (hawl i addysg ac i ddatblygu). Mae hefyd yn cysylltu â gwaith Emma Renold gyda phobl ifanc o ran addysg rhyw a chydberthynas yng Nghymru a'i gwaith i ddatblygu '**AGENDA: Canllaw pobl ifanc ar wneud i gydberthnasau cadarnhaol gyfrif**'.

#### **Y Gymraeg**

18. Mae ymrwymadau Llywodraeth Cymru o dan Safonau'r Gymraeg wedi'u hystyried wrth ddrafftio'r cyngor hwn.

#### **Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**



19. Mae cydraddoldeb rhywiol yn hawl ddynol sylfaenol, mae hefyd yn sail hanfodol ar gyfer byd heddychlon, llewyrchus a chynaliadwy – yn y bôn, mae'n fater o ddemocratiaeth, cynrychiolaeth, a chyfiawnder cymdeithasol.

### **Y Gofynion o ran Cyllid a'r Goblygiadau o ran Llywodraethu**

20. Mae'r cyllid ar gyfer cyflawni Cam 2 eisoes yn ei le felly nid oes costau ychwanegol i'w hystyried ar hyn o bryd. Fodd bynnag, efallai y bydd costau'n deillio o gyflawni'r weledigaeth drwy'r 'map'. Caiff rhagor o gyngor ei roi pan gaiff pan fydd y 'map' yn barod a bod mwy o eglurder o ran sut y gall Llywodraeth Cymru fynd ati i gyflawni'r weledigaeth.

21. Caiff unrhyw gostau staff cysylltiedig eu talu o ddyraniadau staffio EPS a gellir talu costau gweinyddol eraill o'r cyllidebau gweinyddol cyfredol.

22. Mae Tîm Gweithrediadau EPS yn fodlon fod hwn yn cydymffurfio â: Hysbysiad Cyllid Interim 01/2015 (EPS/JH/08/19); Cliriad MEG CSA: CSOT(18/19)-MA216; Cliriad ESNR: ET/CF/18/613; Rhan 2 o Ddeddf Amgylchedd Cymru (Newid Hinsawdd). Rydym wedi ystyried y cyngor a nodir yn hwn a chadarnhawn fod sylw dyledus wedi'i roi i'r effaith ar allyriadau.

23. Cod clirio Cyllidebu Strategol: SB0704/5.

### **Ymchwil a / neu ystadegau**

24. Nid oes unrhyw ymchwil nac ystadegau sydd angen cael eu clirio gan y Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) yn y papur hwn. Fodd bynnag, mae KAS yn rhan o Gam 2 o'r adolygiad ac fe gyfrannodd y gwasanaeth yn ystod Cam 1 hefyd.

### **Cyfathrebu a chyhoeddi**

25. Argymhellir cynnwys y weledigaeth fel rhan o'r Datganiad Llafar ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod sydd i'w gynnal ar 5 March. Bydd swyddogion yn cydweithio â staff cyfathrebu i lunio cynllun ar gyfer gweithgareddau mewnol ac allanol.

26. Gellir cyhoeddi'r papur cabinet hwn ar ôl y Datganiad Llafar.

**Argymhelliad:**

**Gofynnir i'r Cabinet:**

**Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol**

**Nodi bod y gwaith i barhau ar sail y weledigaeth a'r egwyddorion ar gyfer cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru, ac ar sail y diffiniad o Lywodraeth Cymru ffeministaidd, fel y'i nodir yn y papur hwn**

**Nodi y caiff y camau nesaf eu cytuno mewn cyfarfodydd dwyochrog, rhwng y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**

**Gweithio Cydgysylltiedig**

27. Mae'r papur hwn wedi bod yn destun 'sesiwn herio' gan yr Ysgrifennydd Parhaol.

**Jane Hutt AC**  
**Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**  
Chwefror 2019